



Polisi Gwaith Cartref Ysgol Bro Plenydd

NOD:

Sicrhau bod gwybodaeth am y drefn a ddefnyddir parthed Gwaith Cartref yn wybyddus i'r :

- athrawon
- rhieni
- plant
- llywodraethwyr

Sicrhau bod polisi ysgol gyfan parthed gwaith cartref yn weithredol.

AMCANION:

- i. Sicrhau bod athrawon a rhieni yn ymwybodol o'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan y disgyblion o safbwynt sut a phryd y caiff gwaith cartref ei osod.
- ii. Sicrhau bod y gwaith cartref a osodir yn hylaw i bawb.
- iii. Datblygu partneriaeth effeithiol rhwng yr ysgol a'r rhieni wrth gyrchu tuag at nodau ac amcanion yr ysgol
- iv. Datblygu a chadarnhau sgiliau a dealltwriaeth y disgyblion, yn arbennig mewn llythrennedd a rhifedd.
- v. Elwa ar adnoddau dysgu o bob math a geir gartref.

Cred yr ysgol hon mewn gosod gwaith cartref yn rheolaidd oherwydd y rhesymau isod:

1. datblygu/atgyfnerthu y bartneriaeth sy'n bodoli rhwng yr ysgol a chartref i hyrwyddo datblygiad addysgol y plentyn
2. annog diddordeb rhieni yng nghynnydd eu plant a rhoi cyfle i'r plentyn gael rhannu ei waith ysgol gyda'i riant
3. meithrin elfen o hunan ddisgyblaeth ac annibyniaeth yn y plentyn gan ei annog i ymchwilio/dyfalbarhau ar ei ben ei hun neu gyda chymorth riant

4. cadarnhau cysyniadau a ddatblygwyd yn barod yn yr ystafell ddosbarth drwy ymarfer cyson.

CANLLAWIAU:

Diffinir 'GWAITH CARTREF' fel unrhyw waith neu weithgaredd y gofynnir i blant ei wneud y tu allan i oriau'r ysgol.

Mae'r Llywodraeth erbyn hyn yn datgan bod gwaith cartref yn gallu "chwarae rhan allweddol i godi safonau cyrhaeddiad". Datgenir ymhellach ei bod yn bwysig bod y gwaith cartref a osodir yn gysylltiedig â'r gwaith a wneir yn yr ysgol a bod y swm a osodir yn adlewyrchu oedran y disgyblion".

TREFN GOSOD GWAITH CARTREF YN YR YSGOL

1. Gosodir gwaith cartref yn rheolaidd i blant CA2. Gall hyn ddigwydd yn ystod yr wythnos, ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau.
2. Gosodir gwaith cartref ym meysydd rhifedd a llythrennedd gan amlaf ble gosodir tasgau i gydfynd â'r gwaith a wneir yn y dosbarth ar y pryd neu ar waith a wnaethpwyd yn barod er mwyn ymarfer a chadw cysyniadau yn fyw yng nghof y plentyn a chefnogi a hyrwyddo sgiliau.
3. Gosodir y canlynol yn dasgau rheolaidd i'w gwneud gartref:
 - adolygu/dysgu sillafu a thablau lluosu
 - darllen yn ddyddiol
 - ymateb yn ysgrifenedig i lyfrau a ddarllenwyd
 - ymarferion mathemateg a chonfensiynau iaith.
4. Bydd y plant yn gweithio ar thema arbennig bob hanner blwyddyn. Yn achlysurol, gosodir gwaith ymchwil i'r plentyn wneud gartref ar wahanol agweddau o'r thema. Pan ddigwydd hynny, gobeithir y bydd y cartref yn cydweithredu i hybu gwaith y plant.
5. Gosodir gwaith cartref yn achlysurol yn Nosbarth Cam Sylfaen yr ysgol. Disgwylir, fodd bynnag, i bob disgybl fynd â llyfrau darllen gartref yn rheolaidd i'w cyd-ddarllen â rhieni ac mae'r adborth a geir yn sylwadau rhieni i ddarllen eu plant yn y llyfrynnau darllen cartref o gymorth mawr i'r athrawon.

6. Gosodir gwaith cartref ymchwiliol yn y dosbarth hwn ble bydd angen casglu gwybodaeth a bydd hyn yn atgyfnerthu y gwaith a wneir yn y dosbarth.
7. Credir ei bod yn bwysig i'r plant i gyd ddefnyddio sgiliau ymchwiliol, drwy holi rhieni, perthnasau neu gymdogion am wybodaeth ynglŷn â'r ardal leol dyweder neu'r gorffennol.
8. Sylweddolir mai cyfrifoldeb y cartref yw'r plentyn yn ystod yr oriau hyn ac mai yng ngoleuni'r cyfrifoldeb hwnnw y bydd rhieni yn cytuno neu'n anghytuno i weithredu.
9. Gosodir gwaith cartref rheolaidd i blant ag AAA fel rhan o'u cynlluniau gwaith unigol gyda chydweithrediad y rhieni.
10. **Pan osodir gwaith cartref er mwyn dileu gwendid neu er mwyn canolbwyntio ar unrhyw agwedd sy'n peri trafferthion i'r plentyn gobeithir derbyn cydweithrediad llwyr y cartref ac anogaeth i'r plentyn wneud y gwaith.**
11. **Disgwylir i waith cartref gael ei gyflawni o fewn amser penodedig a chael ei gyflwyno'n raenus. Rhoddir yr un pwyslais ar gywirdeb a thaclusrwydd gwaith cartref a'r un pwysigrwydd iddo â'r hyn a ddisgwylir yn y dosbarth.**

DARLLEN

Mae dod i allu darllen yn un o'r sgiliau cynharaf a ddatblygir yn yr ysgol gynradd ac yn un o'r sgiliau addysgol pwysicaf. Mae'r gallu i ddarllen yn sylfaen ar gyfer yr holl weithgareddau addysgol eraill hefyd. Os yw plentyn yn cael trafferth darllen yna, yn aml iawn, bydd yn cael trafferthion gydag agweddau eraill o'r cwricwlwm yn ogystal.

Yn naturiol felly, rydym yn rhoi pwyslais mawr ar ddysgu darllen ac ar ddatblygu fel darllenwr. **Er mwyn i hyn ddigwydd mae plentyn angen darllen yn rheolaidd, bob diwrnod.** Yn yr ysgol rydym yn ceisio cynnal cyfnod darllen ble y canolbwyntir ar ddatblygu sgiliau darllen yn ddyddiol. Oherwydd ei bod hi'n anodd i athrawes roi sylw i bawb mewn cyfnod, byddwn yn gwneud defnydd o wirfoddolwyr darllen i'n helpu yn ystod y cyfnodau yma. Bydd rhai o aelodau o Glwb Pensiynwyr Y Ffôr yn dod yn wythnosol i gyd-ddarllen â phlant y Cam Sylfaen.

Gartref, dylai'r plentyn ddarllen bob nos am gyfnod byr yn rheolaidd. Mae hyn yn eithriadol bwysig i ymestyn sgiliau darllen a datblygu fel darllenwr.

Os yw eich plentyn yn amharod i ddarllen gartref ac yn cael trafferth cael gafael ar lyfrau y mae'n ei fwynhau, mae'n bwysig eich bod yn trafod hyn gyda'r athrawes ddosbarth er mwyn i ni gael chwilio am lyfrau addas ar ei gyfer.

DARLLEN GYDA'CH PLENTYN

Ar ddechrau bob blwyddyn newydd bydd yr ysgol yn dosbarthu i bob cartref y llyfryn, **Sut y Gallaf Helpu fy Mhlentyn gyda'i Ddarllen.** Mae hwn yn llawlyfr cynhwysfawr sy'n cynnig canllawiau i chi fel rhieni.

Bydd disgyblion yn mynd â llyfrau o bob math adref i'w darllen yn rheolaidd. Fel gwaith cartref, disgwylir i blant CA2 ymateb i'w darllen yn fyr ac, o bryd i'w gilydd, yn fwy estynedig. Paratoir **'Llyfrynnau Darllen Cartref'** yn arbennig ar gyfer y pwrpas hwn. Mae lle ynddynt hefyd i'ch sylwadau chi fel rhieni. Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi eich sylwadau yn fawr ac yn eu darganfod o gymorth adeiladol. Mae'r drefn o ymateb i ddarllen eich plentyn yn angenrheidiol ac yn holl bwysig yn nau ddosbarth cyntaf yr ysgol ble mae'r broses o ddysgu darllen yn digwydd.

TREFN NEWID LLYFRAU A'U DYCHWELYD

Mae croeso i ddisgyblion fenthyg llyfrau o lyfrgelloedd yr ysgol ar yr amod eu bod yn cael eu parchu a'u dychwelyd ar amser.

Disgwylir i lyfrau gael eu dychwelyd er mwyn eu newid fel a ganlyn:

Meithrin : un llyfr yn wythnosol – i'w dychwelyd ar fore Iau

BI 0 dau lyfr yn wythnosol i'w newid yn wythnosol – i'w dychwelyd ar fore Iau

BI 1 darllen dau lyfr yr wythnos, i'w dychwelyd ar fore Llun i'w newid

BI2 hyd at 4 llyfr yr wythnos, Cymraeg a Saesneg i'w dychwelyd ar fore Llun i'w newid

BI3 a 4 darllen un llyfr Cymraeg ac un llyfr Saesneg yr wythnos, i'w dychwelyd ar fore Llun i'w newid

B15 a 6 darllen llyfrau Cymraeg a Saesneg bob yn ail wythnos, llyfrau i'w dychwelyd i'w newid fel y mae'r plentyn yn barod
disgwylir i'r llyfryn ymateb i'r darllen gael ei dychwelyd bob bore Llun

Darperir llyfr gwaith / taflenni / ffeil ar gyfer Gwaith Cartref i bob plentyn.

Mabwysiadawyd y Polisi / Cynllun hwn gan Lywodraethwyr Ysgol Bro Plenydd

Cadeirydd y Llywodraethwyr :

.....

Dyddiad

.....

Arwyddwyd ar ran yr Ysgol (Pennaeth) :

.....

Dyddiad

.....

Adolygwyd :

Dyddiad

.....